## **3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018**

Ni chodwyd dim.

## **4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien**

Rhoddodd y Cadeirydd ddarlun cyffredinol o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan dynnu sylw penodol at y canlynol:

- Roedd digwyddiad Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA wedi cael ei gynnal yng Ngholeg Berkeley ar 10 ac 11 Gorffennaf 2018. Roedd sawl sesiwn ddi-ddorol wedi cael ei chynnal yn ystod y digwyddiad deuddydd, gan gynnwys defnyddio roboteg, a'r diweddaraf am ddatgomisiynu Bradwell. Roedd Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, y Cyng. Aled Morris-Jones wedi cael gwahoddiad i annerch y gynhadledd, ac roedd wedi cyfeirio'n benodol at y datgomisiynu parhaus yn safle Trawsfynydd.
- Roedd cyfarfod holl Gadeiryddion y Grwpiau Rhanddeiliaid Safle wedi cael ei gynnal ar 19.11.18 yn Llundain, a chyfeiriwyd yn benodol at y gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud yn safle Trawsfynydd. Llongyfarchodd y Cadeirydd Magnox am ei Ymgyrch Iechyd meddwl, ac am y fideo.
- Yr wythnos ganlynol, roedd yr Is-gadeirydd, John Richards, wedi bod mewn cyfarfod a gynhaliwyd gan yr NDA yn Llundain i ystyried eu Strategaeth ddrafft (adroddodd yn ol i'r Grŵp yn ystod anerchiad y Cadeirydd).
- Roedd Prif Weithredwr yr NDA, David Peattie, wedi ymweld â'r safle ar 12 Medi, ac roedd Cadeirydd yr NDA, Tom Smith, wedi bod yno ar 4 Hydref.
- Cyfeiriwyd at raglen ar Radio Wales, 'How to solve a problem like Trawsfynydd', a oedd yn rhoi darlun cytbwys a chadarnhaol o'r gweithgarwch a'r datblygiadau yn safle Trawsfynydd. Bydd dolen at y rhaglen ar-lein yn cael ei hanfon ymlaen ar yr aelodau i gyd.

## **5. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cau Safle – Edward Selden**

Ac yntau newydd gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cau Safle Trawsfynydd, diolchodd Mr Edward Selden i'r Cadeirydd am y croeso cynnes. Dywedodd wrth yr aelodau mai teitl ei rôl flaenorol yn Magnox oedd Rheolwr Rhaglen Gweithrediadau Gwastraff, a hynny yng Nghanolfan Dechnegol Oldbury. Yn y swydd honno, roedd wedi cael cyfle i weithio gyda holl safleoedd Magnox ac ymweld â nhw, ac roedd hynny'n cynnwys Trawsfynydd. Cyn dechrau gweithio i Magnox, roedd ES wedi treulio gweddill ei yrfa 37 mlynedd mewn cyfleusterau niwclear yn yr Unol Daleithiau, yn Ne Carolina, Efrog Newydd, Washington, Kentucky ac Idaho. Roedd hyn yn cynnwys safleoedd a oedd yn mynd drwy'r broses ddatgomisiynu.

Aeth â'r aelodau drwy ei adroddiad – a oedd wedi cael ei rannu i'r aelodau ymlaen llaw – a oedd yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng 19 Mehefin ac 13 Tachwedd 2018. Tynnodd sylw penodol at y canlynol:

### **5.1. Golwg Gyffredinol ar Ddiogelwch**

Mae'r prif ffigurau ar gyfer Cyfanswm Cyfradd y Digwyddiadau a Gofnodwyd (TRIR) a'r Gyfradd Achosion Diwrnodau i Ffwrdd (DACR) yn dal ar sero, sy'n golygu nad oes dim anafiadau difrifol wedi bod ers dros ddwy flynedd. Ers i'r Grŵp gyfarfod ddiwethaf, mae'r pynciau diogelwch canlynol wedi cael eu hyrwyddo'n frwd: Safonau radiolegol, Rheoli Gwastraff, Diogelwch Cemegol, Defnyddio Cyfarpar Sgrin Arddangos ac Ystum y Corff yn y Gwaith a Sicrhau Ansawdd.

Un uchafbwynt ers yr adroddiad diwethaf oedd y Diwrnod Diogelwch Offer Symudol. Roedd y digwyddiad hwn wedi cael ei drefnu gan dîm diogelwch y safle, drwy weithio gyda phartneriaid contractio ar y safle, gan gynnwys Interserve. Yr amcan oedd codi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer symudol ar y safle, a'r anawsterau a wynebir gan weithredwyr cerbydau o'r fath. Daeth 135 o bobl i weld yr arddangosfeydd er mwyn dysgu am bwysigrwydd meddwl yn ofalus wrth gyrraedd croesfannau, dallbwyntiau o gwmpas yr amrywiol beiriannau, y manau nad yw gweithredwyr yr offer yn eu gweld yn iawn wrth weithio, a'r dechnoleg sydd ar gael i helpu i osgoi gwrthdrawiadau. Cafodd y digwyddiad ei ffilmio'n broffesiynol ac mae fideo ar gyfer dysgu wrthi'n cael ei gynhyrchu er mwyn gallu ei ddefnyddio yn safle Trawsfynydd ac mewn safleoedd eraill yn y dyfodol.

Digwyddiad nodedig arall oedd y trydydd Diwrnod Ymwybyddiaeth Cymorth Cyntaf a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd i hyrwyddo cymorth cyntaf ar y safle. Cynhaliwyd y digwyddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol Iechyd, Amgylchedd a Diogelwch. Roedd pob un o'r tri diwrnod ymwybyddiaeth yn rhoi sylw i waedu, esgyrn wedi'u torri, llosgiadau, anafiadau pen, CPR, adfer a sut i ddefnyddio Diffibrilydd Allanol Awtomatig. Roedd y diwrnodau ar gael i holl bersonél y safle. Cafwyd adborth cadarnhaol o bob sesiwn. Roedd y digwyddiad hefyd wedi ysgogi diddordeb ymysg unigolion i gymhwyso i fod yn swyddogion cymorth cyntaf ar gyfer y safle.

Mae'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau gan ddefnyddio porth gwe Q-Pulse wedi bod yn llwyddiannus. Mae pawb dan sylw wedi addasu i'r broses newydd. Wrth i'r gwaith o fonitro tueddiadau fynd rhagddo, nid oes grwpiau sylweddol o ddigwyddiadau wedi cael eu nodi mewn adolygiadau diweddar.

### **5.2 Sicrhau Ansawdd a Goruchwyllo**

Mae Sicrhau Ansawdd yn safle Trawsfynydd yn faes sy'n dal i wella. Mae Peirianwyr Sicrhau Ansawdd bellach wedi'u hymsefydlu o fewn meysydd prosiect. Mae Matrics Sicrwydd y safle hefyd yn parhau i aeddfedu wrth iddo gofnodi'r ystod eang o weithgareddau sicrwydd a wneir ar y safle. Mae hyn yn dod â'r wybodaeth a gesglir at ei gilydd i un lle fel bod tueddiadau safle'n haws eu nodi, gan ganiatáu i welliannau gael eu gwneud yn lleol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei asesu i'w ddefnyddio ar bob safle.

Mae'r gwaith o gael trefn ar ddogfennau'r safle'n dal i fynd rhagddo ac mae Dogfennau Proses y cwmni yn cael eu gweithredu. Mae archif ddogfennau'r safle'n cael ei had-drefnu, yn barod ar gyfer archifo'n derfynol oddi ar y safle. Y budd o wneud hyn yw mai dim ond deunyddiau ddylai gael eu cadw yn y tymor hir sy'n mynd i'r archif derfynol.

### **5.3. Y Cynnydd o ran Datgomisiynu**

#### **Y Rhaglen Offer a Strwythurau**

Mae'r gwaith brasnaddu gyda Brokk wedi'i gwblhau ar lonydd Pyllau Trawsfynydd. Aethpwyd ati'n llwyddiannus i symud y tri pheiriant brasnaddu Brokk oddi ar y safle i gyfleuster niwclear arall iddynt gael eu defnyddio eto.



Cafodd y pibellau trosglwyddo resin a halogwyd yn radiolegol eu tynnu'n llwyddiannus gan ddefnyddio techneg bagiau menig, a oedd yn ddull newydd i'r safle ac yn llwyddiannus iawn o ran lleihau'r amseroedd cyffredinol a lleihau'r angen i weithredu mewn amodau C3. Ar ôl tynnu'r cydrannau gweithredol a chael gwared o'r cladin allanol, tynnwyd y prif strwythur dur gan ddefnyddio craen symudol mawr 200t a gostwng y bont mewn tair adran. Gostyngwyd maint yr adran olaf yn y fan a'r lle o ystyried ei lleoliad yn ymyl adeilad y Cyfleuster Caledu Resin.

Mae'r golchdy ac ystafell y tanc cawstig nad oedd yn cael eu defnyddio wedi'u gwagio, a gwnaed cynnydd sylweddol hefyd i symud offer segur o'r hen olchdy gweithredol a ddefnyddiwyd i olchi Cyfarpar Diogelu Personol wedi'i halogi. Ar hyn o bryd, mae tîm y prosiect yn brysur yn ceisio ynysu'r Cyfleuster Trin Elifion Gweithredol er mwyn gallu datgymalu'r offer cysylltiedig dros y misoedd nesaf.

### **Cyfleuster Trin Gweddillion Elfennau Tanwydd y Gogledd (NFED)**

Mae'r gwaith o adfer gweddillion elfennau tanwydd wedi bod yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae perfformiad wedi bod yn gymysg yn ystod y cyfnod adrodd, gyda chyfnodau pan fu cyfraddau adfer yn uwch na'r rhagdybiaethau sylfaenol, yn gymysg â chyfnodau segur a achoswyd gan broblemau cyfarpar. Mae cyfanswm o bymtheg o flychau wedi'u llenwi o bedair cromgell, mae tua 15 tunnell o wastraff lefel canolradd (ILW) wedi cael ei brosesu ac mae mynediad i'r pumed gell ar fin digwydd. Roedd yn cydnabod, fodd bynnag, fod mwy o waith i'w wneud.

Cynhaliodd Prif Beiriannydd y Rhaglen Wastraff 'Adolygiad Parodwydd Gweithrediadau', a bydd y prosiect Adfer Elfennau Tanwydd Lefel Uwch (FEDER) a'r Tîm Gweithrediadau Gwastraff yn dilyn hyn drwy roi sylw i gamau i hwyluso'r broses o drosglwyddo'r cyfleuster i'r Tîm Gweithrediadau Gwastraff yn ffurfiol.

### **Cyfleuster Trin Gweddillion Elfennau Tanwydd y De (SFED)**

Ar ôl cwblhau'r cam Paratoi ar gyfer Gwaith SFED ym mis Awst 2018, mae'r prosiect wedi symud ymlaen i'r cam Comisiynu Anweithredol. Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi cwblhau'r gwaith Comisiynu Anweithredol yn yr Ardal Adfer, ac ar hyn o bryd mae'n tynnu at ddiwedd y gwaith yn yr Ardal Brosesu. Ar ôl hynny, bydd y tîm yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y newid ffurfiol o'r cam Comisiynu Anweithredol i'r cam Comisiynu Gweithredol.

### **Gweithrediadau Gwastraff**

Mae'r safle wedi cynhyrchu 313 tunnell o wastraff heb fod yn ymbelydrol hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol hon. O'r gwastraff hwnnw, cafodd 79% ei ailgylchu (82% os yw gwastraff peryglus yn cael ei dynnu o'r cyfanswm). Rydym wedi cael gafael ar system ddadansoddi newydd ar gyfer profi drymiau gwastraff lefel isel, ac mae'n cael ei chomisiynu ar hyn o bryd.

### **Cerrig Milltir Gwastraff**

**Y Brif Gromgell Slwtsh (MSV) a'r Cyfleuster Caledu Gwastraff Lefel Ganolradd Cludadwy (TILWSP)** – Mae 40 pecyn o slwtsh swmpus wedi'u hadfer a'u hamgáu. Mae'r tanc ar hyn o bryd yn y cam Glanhau Ôl-weithredol (POCO), y disgwylir cael pum pecyn ychwanegol o wastraff ohono. Mae'r gwaith POCO wedi cynnwys defnyddio offer gwahanol i gael gwared ar halogiad o'r tu mewn i'r tanc. Mae tynnu'r halogiad hwn wedi bod yn anodd ac wedi arwain at dreulio mwy o amser ar y cyfnod hwn o waith na'r hyn a ragwelwyd yn adroddiad diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i orffen erbyn diwedd Mawrth 2019.

### **Gwastraff sydd angen Triniaeth Ychwanegol (WRAT)**

Mae strwythur plastig newydd – strwythur a atgyfnerthwyd gan wydr modiwlaid – wedi'i osod yn y Cromgellau Gwastraff Gweithredol ac mae'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi prosesu ffrydiau gwastraff ILW drwy'r rholer drwm sydd yn y cyfleuster.

### **Pobl**

Mae Cyd-gyngor Safle Rhanbarthol Cymru wedi'i sefydlu erbyn hyn.

Mae Rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Magnox yn parhau i gael ei hyrwyddo drwy'r calendr EDI sydd ar gael i bawb drwy Fewnrwyd Magnox.

Yn ogystal â swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl penodedig, cyflwynwyd hyfforddiant ar Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell.

Mae cyfanswm y gweithlu cyfredol yn 208, yn cynnwys 136 o weithwyr Magnox, 57 o Weithwyr a Gyflenwir drwy Asiantaeth a 15 o Weithwyr a Gyflenwir drwy Gontract.

### **Diogelwch Amgylcheddol**

#### **Digwyddiadau Amgylcheddol**

Yn gynnar yn 2017, ymchwiliodd y safle i duedd o faterion dibynadwyedd gyda phympiau samplu staciau nwyon. Nododd yr adroddiad nifer o achosion a oedd yn galluogi i bwmp samplu is na'r safon gael ei ddefnyddio ar gyfer monitro nwyon a oedd yn cael eu rhyddhau, a chyfleoedd wedi'u colli i nodi hyn yn gynt. Cafodd y Rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, ei hysbysu'n rheolaidd o'r canfyddiadau a'r camau cywiro. Yn ystod mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Rheoleiddiwr adroddiad asesu cydymffurfiaeth yn nodi pedwar achos o dorri amodau trwyddedau. Nid oedd dim un yn achosi effaith amgylcheddol. Gwnaethpwyd dau argymhelliad yn yr adroddiad ac maent yn cael eu holrhain er mwyn osgoi achos tebyg o ddiffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

#### **Gollyngiadau Amgylcheddol**

Yn ystod y cyfnod olaf hwn, mae'r safle wedi cynnal lefel y gollyngiadau i'r amgylchedd ar lefelau isel iawn, yn sylweddol is na'r terfynau blynyddol a ganiateir.

#### **Diogelwch Radiolegol**

Mae'r holl ddognau fel y'u rhagfyngwyd ac mor isel ag sy'n ymarferol resymol (ALARP).

#### **Trefniadau Mewn Argyfwng**

Dri mis ar ddeg ar ôl 'Pontio Oddi ar Sifftiau', mae ein trefniadau brys wedi'u gwreiddio'n dda mewn gweithdrefnau ac arferion gweithredol. Mae'r tîm diogelwch bellach yn hollol hyfedr o ran trefniadau oriau tawel. Mae Rheolwyr a Rheolyddion ar Ddyletswydd, Amddiffynwyr Arweiniol a Dirprwy Amddiffynwyr Arweiniol wedi cael hyfforddiant Rheoli Digwyddiadau Critigol. Mae'r gwaith o hyfforddi Rheolydd ar Ddyletswydd newydd bron wedi'i gwblhau a bydd yn 'Bersonél Cymwysedig a Phrofiadol' gweithredol cyn diwedd y flwyddyn.

Cafodd yr ymarfer diogelwch a arddangoswyd ar 27 Mehefin dderbyniad da ac roedd yn cael ei ystyried yn ddigonol gan y Rheoleiddwyr. Roedd adborth yr asesydd yn gadarnhaol.

Y bwriad yw cynnal ymarfer arddangos diogelwch safle fis Ebrill neu fis Mai 2019. Mae ymarfer diogelwch y safle ar gyfer dydd Mercher 27 Mawrth 2019 yn y camau cynllunio olaf, gyda'r senario wedi'i gwblhau a'r dogfennau'n barod i'w cyflwyno i'r Rheoleiddwyr.

#### **Ymweliadau â'r Safle a Dyddiadau Pwysig**

Roedd y safle'n falch iawn o gael ei ddewis fel y lleoliad i Lywodraeth y DU lansio'r Fargen newydd gwerth £220m ar gyfer y Sector Niwclear ar 28 Mehefin. Cafodd yr Ysgrifennydd Busnes ac Ynni, Greg Clark, Ysgrifennydd Cymru, Alun Cairns, y Gweinidog dros Fusnes ac Ynni, Richard Harrington AS a'r Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol, Dr Liam Fox AS, daith o amgylch y safle. Cynhaliwyd cynhadledd i'r wasg hefyd, yn ogystal â thrafodaeth o amgylch y bwrdd gyda rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol.

Cynhaliwyd Cynhadledd Rhwydwaith Merched Magnox yn y safle ar 13 Medi, a Chyfarfod Fforwm Strategol Rhaglen Ynys Ynni hefyd ar 13 Medi. Cynhaliwyd Cyfarfod Bwrdd Trosolwg Trawsfynydd ar y safle ar 21 Medi.

### **Digwyddiad STEM**

Ar 2 Hydref, cynhaliwyd diwrnod STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) i 20 o enethod blwyddyn naw o Ysgol Uwchradd St David's, Caer, ac Ysgol Uwchradd Dinbych. Cawsant eu harwain ar daith o amgylch y safle, cymryd rhan mewn pedwar gweithdy diogelu rhag ymbelydredd, a gwrandao ar ddwy o ferched sy'n fodelau rôl yn Nhrawsfynydd. Roedd yn ddigwyddiad cadarnhaol iawn.

Holodd y Cyng. Meredydd Williams am y sefyllfa o ran adeiladau'r pyllau. Nododd ES fod angen rhagor o drafodaethau ynglŷn â'r strwythurau gweddilliol ac y bydd aelodau'n cael eu diweddarau ynghylch unrhyw ddatblygiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i ES am ei adroddiad manwl.

Croesawyd Mr John Idris Jones, Cadeirydd Ardal Fenter Eryri, i'r cyfarfod. Rhannodd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau presennol â'r aelodau. Amlinellodd y rhesymau canlynol dros y datblygiad:

- Yr angen am gyfleoedd gwaith o safon
- Prinder cyfleoedd gwaith ym Meirionnydd
- Colli pobl ifanc
- Gwaith yn dod i ben yn safle Trawsfynydd
- Cyflogau cyfartalog isel iawn
- Gwneud defnydd o sgiliau lleol
- Traddodiad o gynhyrchu trydan

### **Maes Awyr Llanbedr**

Nododd Mr Jones fod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr ymholiadau gan gwmnïau hedfan a gofod, e.e. mae gan Newton Launch Systems bresenoldeb ar y safle erbyn hyn. Mae datblygiadau sy'n werth £20m a mwy ar y gweill, er enghraifft:

- Ffordd osgoi newydd ar gyfer Llanbedr a mynediad gwell at y safle
- Adnewyddu adeiladau ar y safle i gynnig cyfleusterau da i gwmnïau o safon.

Cadarnhaodd hefyd fod cyfraniad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cael ei gymeradwyo a bod gwaith ar y gweill ar weddill y pecyn ariannu.

Mae gweithgareddau eraill ar y safle yn cynnwys

- Ysgol ddronau dros chwe phenwythnos
- Her beirianeg IMechE gydag ysgolion lleol.

### **Safle Trawsfynydd**

Dywedodd Mr Jones mai'r weledigaeth ar gyfer Trawsfynydd yw defnyddio adnoddau lleol i greu canolfan ar gyfer ymchwil a datblygu carbon isel. Bydd hyn yn golygu gosod Adweithyddion Modiwlwr Bach ac Adweithyddion Modiwlwr Uwch.

### **Gogledd Cymru: Canolfan Ragoriaeth sy'n Datblygu ym maes Niwclear**

Amlinellodd Mr Jones y datblygiadau canlynol yng Ngogledd Cymru:

- Ardal Fenter Ynys Môn – Parc Gwyddoniaeth Menai; Wylfa Newydd
- Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy – Gweithgynhyrchu Uwch

- Ardal Fenter Eryri – Safle Trawsfynydd
- Prifysgol Bangor – galluedd yn dod i'r amlwg ym maes Ymchwil a Datblygu

### **Y Cynnig Twf**

Eglurodd Mr Jones fod cais am £20M wedi cael ei gyflwyno i'r Cynnig Twf er mwyn ymgymryd â gweithgareddau agnostig ym maes technoleg, er enghraifft:

- Lleoli/cyflawni astudiaethau seilwaith amrywiol
- Gwella seilwaith (cysylltiadau cludiant a ffibr)
- Aseidiadau technegol
- Cadw capasiti ar y grid
- Casglu a storio data
- Cyfleusterau ymchwil ar y safle mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor
- Cyfleusterau ar gyfer gwirio a dilysu dyluniadau a chydrannau

Holodd y Cyng. Meredydd Williams a fydd defnyddio dŵr o'r llyn yn effeithio ar waith Maentwrog. Cadarnhaodd Mr Jones y bydd lefel y dŵr yn y llyn yn cael ei ystyried gan fod hyn yn rhan hollbwysig o ddatblygu Adweithyddion Modiwlwr Bach.

Holodd y Cyng. Meredydd Williams am berchnogaeth y tir yn Llanbedr hefyd. Cadarnhaodd Mr Jones fod y tir yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac mai Stadau Maes Awyr Llanbedr yw'r tenant presennol.

Roedd y Cyng. Ioan Thomas yn croesawu'r buddsoddiad yn y datblygiad a amlinellwyd yn y cyflwyniad, yn enwedig manteision y ffordd osgoi arfaethedig. Holodd a fyddai yna unrhyw gydweithio gyda staff ar Ynys Môn o ran gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Brifysgol. Cadarnhaodd Mr Jones y bydd cydweithio er mwyn sicrhau datblygiad parhaus. Nododd, fodd bynnag, fod angen gwneud yn siŵr bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar y safle hwn, ac na fydd modd ei wneud yn unrhyw le arall o bosib.

## **6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – John McGough**

Croesawyd Mr John McGough i'r cyfarfod, a rhoddodd y diweddariad canlynol:

### **Arolygiadau**

Cyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd, sef 1 Ebrill tan 31 Hydref 2018.

14-16 Mai 2018: Amod Trwydded 11, 12 a 36 – arolygiadau cydymffurfio.

17-19 Medi 2018: Amod Trwydded 24, 26 a 28 – arolygiadau cydymffurfio.

Roedd uwch-arolygydd yr ONR sy'n gyfrifol am ddatgomisiynu tanwydd a gwastraff safleoedd niwclear, arolygydd diogelwch Rhanbarth Cymru Magnox ONR, ac arolygydd diogelwch, wedi bod yn bresennol yn adolygiad blynyddol rhanbarth Cymru Magnox 2018 o ddiogelwch a'r amgylchedd. Cynhaliwyd yr adolygiad ar safle Wylfa ar 25 Gorffennaf.

### **Materion arferol**

Yn gyffredinol, roedd yr ONR o'r farn bod y trefniadau yr oedd y safle wedi'u gwneud a'u rhoi ar waith i ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a adolygwyd. Fodd bynnag, pan ystyriwyd bod angen gwneud gwelliannau, roedd y trwyddedai wedi gwneud ymrwymadau boddhaol i fynd i'r afael â'r problemau, a bydd arolygydd y safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol.

Ym mis Mai 2018, roedd arolygydd arbenigol arweinyddiaeth a rheolaeth diogelwch (LMfS) yr ONR wedi ymuno ag arolygydd y safle. Gyda chynrychiolydd diogelwch y safle, aeth yr arolygydd LMfS o amgylch y safle ar droed er mwyn gweld y diwylliant diogelwch. Cynhaliodd yr arolygwyr gyfarfod gyda'r cynrychiolwyr diogelwch hefyd, i ategu eu gwaith o gynrychioli gweithwyr a derbyn gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

### **Materion heb fod yn arferol**

Nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau arwyddocaol o'r fath i'w hadrodd yn ystod y cyfnod.

### **Gweithgareddau rheoleiddio**

Ni roddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded 'LIs', hysbysiadau gorfodi na llythyrau gorfodi yn ystod y cyfnod hwn.

### **Newyddion ONR**

#### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Ym mis Awst, cynhaliodd ein Prif Arolygydd Niwclear, Mark Foy, a'r Dirprwy Brif Arolygydd, Mina Golshan, weminar ar gyfer rhanddeiliaid ar ganlyniadau adroddiad y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn ar y Cyd. Mae hon yn sianel gyfathrebu newydd rydym wedi'i chyflwyno, ac mae rhagor o weminarau ar y gweill ar gyfer mis Tachwedd a mis Chwefror 2019.

Cynhaliwyd y fforwm ymgysylltu ONR/NGO ar 11 Hydref yn Llundain. Mae hwn yn fforwm i drafod materion rheoleiddio trawsbynciol strategol. Fel arfer, bydd materion sy'n benodol i safleoedd yn cael sylw drwy'r Grwpiau Rhanddeiliaid Safle.

Diolchwyd i Mr McGough am ei gyflwyniad.

## **7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Julia Frost**

### **8. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd – Richard Clarke**

Croesawyd Julia Frost, Cyfoeth Naturiol Cymru a Richard Clarke, Asiantaeth yr Amgylchedd, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad ar y cyd ar weithgareddau a gynhaliwyd rhwng 18 Mehefin a 26 Tachwedd. Nodwyd y canlynol:

Mae'r holl ollyngiadau ymbelydrol o safle Trawsfynydd yn parhau i fod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn y drwydded sylweddau ymbelydrol.

Monitro amgylcheddol – mae'r canlyniadau diweddar yn cyd-fynd â chyfnodau blaenorol ar y cyfan, ac nid ydynt yn peri unrhyw bryderon.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyflwynwyd rhybudd i weithredwr y safle mewn Adroddiad Asesu Cydymffurfiaeth â Sylweddau Ymbelydrol (RASCAR). Roedd hyn yn dilyn casgliadau adolygiad hirdymor o gamau dilynol y gweithredwr ar ôl methiant digwyddiad Gweithdy Gweithredol samplwr aer gronynnol o fath 'BTS-602' ym mis Chwefror 2017. Er bod y penderfyniad i uwchraddio'r systemau samplu arllwysladau nwyol wedi dangos tystiolaeth o ymdrech gadarnhaol i roi system well ar waith, cododd materion ynghylch caffael a gosod. Fodd bynnag, ni chafwyd **dim** arllwysladau amgylcheddol andwyol.

Rhoddyd **argymhellion** i'r gweithredwr er mwyn osgoi achosion o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol, sef:

1. Dylai'r gweithredwr, o fewn 30 diwrnod, amlinellu ei raglen waith i ddangos bod yr holl offer a ddefnyddir i fonitro arllwysladau nwyol y gorau sydd ar gael (BAT).
2. Dylai'r gweithredwr hwyluso arolygiad chwe mis ar ôl dyddiad y RASCAR.

Cynhaliwyd arolygiad o waith Rheoli Asedau yn safle Trawsfynydd ym mis Ebrill 2018, a gofynnwyd am eglurhad gan y gweithredwr ynghylch y trefniadau ar gyfer cwlfertau mawr ar y safle. Mae'r gweithredwr wrthi'n datblygu rhaglen waith ar gyfer hyn.

Mae gwaith yn dal i gael ei wneud gyda safle Trawsfynydd ynghylch datblygu Canllawiau ar Ryddhau Safleoedd Niwclear rhag Cael eu Rheoleiddio (GRR), ar y cyd â'r ONR, yr NDA ac Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

Diolchwyd i JF ac RC am eu hadroddiad ar y cyd.

## **9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Jonathan Jenkin**

Croesawyd Mr Jonathan Jenkin i'r cyfarfod a soniodd yn gryno am ddiweddariad misol yr NDA a oedd wedi cael ei rannu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cyfeiriodd yn benodol at y canlynol:

Penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd Magnox – Laurie Haines, ymgyrch recriwtio uwch reolwyr barhaus ar gyfer swyddi Is-gwmni'r NDA/Magnox.

Mae safle Bradwell wedi cyrraedd y Cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw. Bydd gwaith ymgysylltu lleol yn parhau, a bydd y Cyngor Cyswllt Cymunedol Lleol yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd arian economaidd-gymdeithasol yn parhau.

Mae rhaglen gwagio tanwydd Wylfa wedi cyrraedd 75% – mae pethau'n mynd yn dda a disgwylir y bydd y gwaith wedi'i orffen yn ystod y 12 mis nesaf.

Yr amserlen ar gyfer datgomisiynu – cynhaliwyd digwyddiad yn Llundain gyda llawer o randdeiliaid, gan roi ffocws ar ffactorau i sicrhau Strategaeth briodol. Bydd angen i'r Achos Busnes fydd yn deillio o hyn – a ddisgwylir ddechrau 2019 – gael ei gymeradwyo gan y Llywodraeth, a bydd angen cytundeb ariannu gan y Trysorlys.

Roedd gwaith ailbrosesu yn THORP, Sellafield, wedi dod i ben. Dyma garreg filltir bwysig iawn i'r safle ac i'r diwydiant.

Strategaeth Datgomisiynu Adweithyddion Magnox – adolygu'r strategaeth gyffredinol i safleoedd fynd i'r Cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw am 60 mlynedd. Mae dwy strategaeth yn cael ei hystyried – datgomisiynu safle'n barhaus (h.y. dim gohirio) neu ohirio. Nid oes sicrwydd y bydd newid yn digwydd gan ei fod yn ddibynnol ar arian. Bydd achos busnes yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn ystod haf 2019.

Holodd y Cyng. Meredydd Williams pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch y safle, gan ystyried digwyddiad yr adroddwyd amdano'n flaenorol lle'r oedd math o awyren fôr breifat wedi cael ei gweld ar y llyn. Dywedodd JJ mai Magnox sy'n gyfrifol am ddiogelwch y safle. ***Cytunodd Jonathan Jenkin i gadarnhau pa ohebiaeth yr oedd NDA Properties wedi'i hanfon at berchnogion awyrennau môr.***

Yna holodd y Cyng. Meredydd Williams am berchnogaeth y rheilffordd. Dywedodd JJ fod y rhan fwyaf o'r rheilffordd yn eiddo i Network Rail a bod rhan fechan o'r trac a'r tir cyfagos yn eiddo i'r NDA. Mae NDA Properties yn gwbl ymwybodol o'r gwaith y mae grŵp cymunedol wedi'i wneud ar y rheilffordd. ***Cam gweithredu: JJ i gadarnhau gyda Network Rail.***

Holodd y Cyng. Meredydd Williams a oedd yr NDA wedi ildio ei hawliau i gludo ceblau mewn pibellau o Drawsffynnydd i Danygrisiau. **Dywedodd Jonathan Jenkin y byddai'n gwneud rhagor o ymholiadau fel cam gweithredu.**

#### **10. Diweddariad ar Gyflwr Diwedd Oes Safleoedd – Ian Warner**

Ymddiheurodd Edward Selden ar ran Mr Ian Warner am absenoldeb nad oedd modd ei osgoi, a chyflwynodd y diweddariad a dderbyniwyd dros e-bost:

*Mae canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ar ryddhau safleoedd niwclear rhag cael eu rheoleiddio (y 'GRR') wedi cael eu cyhoeddi erbyn hyn, ac mae Magnox yn dal i weithio i ddatblygu'r cyflwr diwedd oes gorau posib i safle Trawsfynnydd, yn unol â'r canllawiau newydd.*

*Ar yr un pryd, mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi cyhoeddi ei hymateb hithau i'r ymgynghoriad ar y cynigion i symleiddio'r gwaith o reoleiddio safleoedd niwclear yn ystod camau olaf y broses datgomiynu, ac mae'n cefnogi'r cynigion hyn. Er mwyn mabwysiadu'r cynigion, bydd angen diwygio Deddf Safleoedd Niwclear 1965, ac mae cais am slot seneddol wedi cael ei wneud. Ar ôl hyn, bydd modd i weithredwr ildio trwydded y safle niwclear pan fydd wedi ymdrin â'r holl beryglon niwclear arwyddocaol.*

*Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau uchod yn caniatáu opsiwn diwedd oes i'r safle a allai olygu gadael rhywfaint o wastraff datgomiynu ymbelydrol ar ôl. Byddai hyn yn golygu, i raddau helaeth, gadael rhywfaint o strwythurau o dan yr wyneb sydd ychydig yn halogedig ar ôl, a rhoi gwastraff tebyg mewn unrhyw unedau gwag dan yr wyneb, neu beidio.*

*Bydd Magnox yn cyflwyno papur gyda'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio i Uwch Bwyllgor Strategaeth yr NDA ym mis Mawrth 2019 i gyfleu'r achos dros y cyflwr diwedd oes gorau posib yn ei farn ef ar gyfer y safle. Y teimlad ar hyn o bryd yw sicrhau cyflwr diwedd oes lle mae rhywfaint o wastraff ymbelydrol yn cael ei adael ar ôl lle y mae, gan gynnwys gwaredu hen gyfleusterau'r pyllau oeri yn fuan.*

#### **11. Diweddariad am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox – Mair Jones**

Croesawyd Mair Jones i'r cyfarfod. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox:

- Roedd pum cais wedi cael cefnogaeth drwy'r cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan sicrhau cyfanswm o £54,800 o gyllid Magnox yn rhanbarth Trawsfynnydd.

Roedd arian 'Cymydog Da' wedi cael ei roi i'r canlynol:

**Cymdeithas Cŵn Defaid Gogledd Cymru** – £300 i ariannu cystadleuaeth Bugail Ifanc Pencampwriaeth Cŵn Defaid Gogledd Cymru 2018. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Harlech ym mis Awst.

**Ysgol Feithrin y Felinheli** – £1,000 tuag at brosiect gwerth bron i £17,000 i brynu offer chwarae awyr agored pwrpasol o'r radd flaenaf, gan gynnwys cegin fwd, marchnad bwyd, caffi a phwll tywod. Er y bydd yr offer wedi'i leoli yn y grŵp chwarae, bydd ar gael i grwpiau allanol i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

**Clwb Pêl-droed Iau y Bala** – £540 tuag at brynu pedair gôl newydd.

**STEM Cymru, Prosiect Chweched Dosbarth Cynllun Addysg Beirianeg Cymru** – £2,710. Mae'r prosiect yn cysylltu dau dîm o fyfyrwyr chweched dosbarth o Goleg Meirion Dwyfor gyda

Pheirianwyr Magnox o safle Trawsfynydd. Mae'n galluogi'r myfyrwyr i gymhwyso'u gwybodaeth a'i gosod mewn cyd-destun go iawn. Mae'r profiad o fantais ar gyfer Bagloriaeth Cymru a hefyd cais UCAS i fynd i'r Brifysgol.

Bydd staff Magnox yn gosod problem go iawn ym maes peirianeg i'r myfyrwyr, a dros gyfnod o chwe mis, byddant yn creu ateb. Bydd y myfyrwyr yn llunio Adroddiad ysgrifenedig llawn ac yn cael y cyfle i fynd i ddiwyddiad 'Big Bang' yn Venue Cymru.

### **Dyma rai o'r ceisiadau trawsnewid mwy o faint a gafodd eu cefnogi:**

**Hwb Cymunedol Dyffryn Nantlle** – Derbyniodd Antur Nantlle Cyf bron i £10,000 o gyllid Magnox i helpu i greu busnes newydd, sef deli, yn adeilad yr hen fanc sydd wedi ei adnewyddu. Bu'r adeilad yn wag ers 2014, ond bellach mae hwb cymunedol ffyniannus wedi'i greu, gan roi cyfle i gyflenwyr lleol werthu'u cynnyrch. Roedd y prosiect cyffredinol yn bwriadu creu dwy swydd ran amser yn y siop ac un yn y deli, ond oherwydd llwyddiant y busnes, maent wedi creu dwy swydd lawn amser a dwy swydd ran amser yn y deli. Yn ystod y mis cyntaf o fod yn agored, bu bron i 3,500 o bobl yn ymweld â'r Banc.

**Prosiect STEM y Gogledd** – Mae'r prosiect i greu canolfan STEM bwrpasol i ategu gwasanaethau prif ffrwd, sy'n cael ei ddatblygu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd, yn gwneud cynnydd da. Dyfarnwyd £201,000 o gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox i'r cynllun pedair blynedd, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, i gynyddu nifer a chyrraeddian pobol ifanc mewn pynciau STEM ymysg unigolion 11-19 oed yng Ngogledd Orllewin Cymru. Aeth canolfan bwrpasol STEM y Gogledd a mentoriaid STEM allan i dendr ac mae contractau llwyddiannus wedi'u dyfarnu ar gyfer y ddau. Mae rhagor o swyddi wedi'u hysbysebu ar gyfer Rheolwr Rhanbarthol, Swyddog Cyllid a Monitro, Cydlynnydd Canolfan a Chynghorydd Cefnogi Gwelliant.

I gloi, dywedodd Mair Jones wrth yr aelodau bod yr NDA yn cynnal Archwiliad Mewnol ar geisiadau ac y bydd yn ymweld â chynlluniau a phrosiectau sydd wedi cael budd o'r arian. Byddai Adroddiad yr Archwiliad ar gael ym mis Ionawr, ac yn cael ei gyflwyno i Swyddfa'r Cabinet cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Diolchodd y Cadeirydd yn ffurfiol i Mair Jones a Magnox Ltd am weinyddu a chyflwyno'r arian gwerthfawr hwn i gefnogi prosiectau lleol, ac anogodd yr aelodau i hyrwyddo'r gronfa yn eu hardaloedd lleol. Dolen <https://magnox socioeconomic.com>

## **12. Adolygu Cyfansoddiad y Grŵp Rhanddeiliaid Safle – Michelle Humphreys**

Cyflwynodd Michelle Humphreys y fersiwn ddrafft o Gyfansoddiad diwygiedig y Grŵp Rhanddeiliaid Safle, yn unol â chanllawiau diweddar yr NDA i Rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2018. Aeth MH â'r aelodau drwy'r newidiadau penodol. Roedd yr aelodau'n cytuno arnynt, yn amodol ar y canlynol:

- Pwynt 2.1 Ychwanegu cynrychiolydd o Gyngor Tref Ffestiniog
- Pwynt 2.1 Cyngor Cymuned Trawsfynydd *i ddarllen fel* Cyngor Cymuned Trawsfynydd a Maentwrog X 1
- Pwynt 2.2 pwynt bwled 5 – 'Cyd-bwyllgor Lleol' i ddweud 'Cyd-gyngor Safle'

Nodwyd o dan Bwynt 2.2, pwynt bwled 4 – nid swyddog yw'r Cyng. Ioan Thomas ond yn hytrach aelod o Gyngor Sir Gwynedd, a holwyd a ddylid gwneud hyn yn gliriach yn y ddogfen. Mae angen cytuno ar hyn.

Cadarnhawyd y cyfansoddiad diwygiedig.

## **13. Unrhyw fater arall**



Roedd y Cyng. Dafydd Watts, Llanfrothen, yn dymuno rhoi gwybod i'r aelodau bod grŵp annibynnol wedi cael ei sefydlu i drafod y posibilrwydd o drosglwyddo asedau o Faentwrog i'r gymuned leol gyda'r NDA a phartïon eraill sydd â diddordeb.

#### **14. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Cytunwyd i newid diwrnod y cyfarfod i ddydd Iau. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2019, gydag ymweliad safle yn y bore.

Y dyddiadau a gynigir ar gyfer 2019 yw dydd Iau 6 Mehefin a dydd Iau 5 Rhagfyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 2.55pm.